O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U

# 2018 Rhif (Cy. )

# PLANT A PHOBL IFANC, CYMRU

## Rheoliadau Cynllunio Gofal, Lleoli ac Adolygu Achosion (Cymru) (Diwygio) 2018

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Cynllunio Gofal, Lleoli ac Adolygu Achosion (Cymru) 2015 ("Rheoliadau 2015").

Mae Rhan 3 o Reoliadau 2015 yn cynnwys darpariaethau cyffredinol ynghylch lleoli plentyn sy'n derbyn gofal, gyda rheoliad 12 yn gwneud darpariaeth benodol mewn perthynas â lleoliadau y tu allan i'r ardal.

Mae rheoliad 2 o'r Rheoliadau hyn yn ychwanegu at yr wybodaeth y mae rhaid i'r awdurdod cyfrifol ei darparu o dan reoliad 12(8) o Reoliadau 2015, ac y mae rhaid ei chyflenwi ddim hwyrach na 24 awr ar ôl gwneud y lleoliad.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2018 Rhif (Cy. )

# PLANT A PHOBL IFANC, CYMRU

## Rheoliadau Cynllunio Gofal, Lleoli ac Adolygu Achosion (Cymru) (Diwygio) 2018

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *** |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* | *** |
| *Yn dod i rym* | *** |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 81(6)(d), 84(f), 87, 107(8) a 196(2) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cynllunio Gofal, Lleoli ac Adolygu Achosion (Cymru) (Diwygio) 2018.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar XX.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

### Diwygio Rheoliadau Cynllunio Gofal, Lleoli ac Adolygu Achosion (Cymru) 2015

**2.**—(1) Mae rheoliad 12 (penderfyniad lleoli) o Reoliadau Cynllunio Gofal, Lleoli ac Adolygu Achosion (Cymru) 2015(**2**) wedi ei ddiwygio yn unol â'r rheoliad hwn.

(2) Ym mharagraff (6)(b) dileer "ddim hwyrach na 5 diwrnod gwaith ar ôl gwneud y lleoliad".

(3) Ym mharagraff (8), yn lle'r diffiniad o "hysbysu" rhodder—

(**1**) 2014 dccc 4.
(**2**) O.S. 2015/1818 (Cy. 261).

"ystyr "hysbysu" ("*notified*") ym mharagraff (6)(b) yw fod rhaid i'r awdurdod cyfrifol ddarparu—

(a) ddim hwyrach na 24 awr ar ôl gwneud y lleoliad—

(i) enw a dyddiad geni C,

(ii) cadarnhad ynghylch a yw C yn derbyn gofal gan yr awdurdod lleol ar sail wirfoddol(**1**) neu o dan orchymyn gofal(**2**),

(iii) manylion am unrhyw un neu ragor o'r gorchmynion a ganlyn sydd wedi eu gwneud mewn perthynas ag C ac sy'n parhau mewn grym—

(aa) unrhyw orchymyn a wnaed o dan Ddeddf Plant 1989(**3**),

(bb) gorchymyn adsefydlu ieuenctid, gofyniad preswylio awdurdod lleol neu orchymyn adsefydlu ieuenctid â maethu(**4**),

(cc) gorchymyn goruchwylio gorfodol neu orchymyn goruchwylio gorfodol interim(**5**), a

(iv) manylion am unrhyw ffactorau amddiffyn plant neu ffactorau risg sylweddol sy'n ymwneud ag C, gan gynnwys unrhyw berygl o gamfanteisio'n rhywiol ar blant, materion iechyd corfforol neu iechyd meddwl, hanes o ddianc a/neu ymwneud ag asiantaethau cyfiawnder ieuenctid, ond heb fod yn gyfyngedig i'r ffactorau hynny; a

(b) ddim hwyrach na 5 diwrnod gwaith ar ôl gwneud y lleoliad—

(i) manylion o'i asesiad o anghenion C a'r rhesymau pam yr ystyrir mai'r lleoliad a ddewiswyd yw'r ffordd fwyaf priodol o ddiwallu anghenion C, a

---

(**1**) *Gweler* adran 76 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

(**2**) *Gweler* adran 31(11) o Ddeddf Plant 1989 (p. 41).

(**3**) 1989 p. 41.

(**4**) *Gweler* adran 7 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Mewnfudo 2008 (p. 4).

(**5**) *Gweler* adrannau 83 a 86 o Ddeddf Gwrandawiadau Plant (Yr Alban) 2011 (dsa 1).

(ii) copi o gynllun gofal a chymorth C os na ddarparwyd copi eisoes;”.

*Rebecca Evans*
Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol, o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant, un o Weinidogion Cymru

Dyddiad